

Heb gyhoeddi a gwybodaeth yn gorfodi



Mae gerddi hanesyddol ar flaen y gad o ran newid hinsawdd wrth i newidiadau tywydd difrifol effeithio ar bob agwedd ar dirweddau dyluniedig. Chiswick House and Gardens © Chris Gorman, Big Ladder Photography, Awst 2026.

Gofynnwn ni i berchnogion a rheolwyr parciau a gerddi hanesyddol ar draws y DU sut mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar y lleoedd maen nhw'n gofalu amdanynt.

Er bod gan y DU dros 2,800 o dirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, cyfyngedig yw'r arweiniad sydd ar gael i'r rhai sy'n gofalu amdanynt ar sut i addasu a pharatoi ar gyfer ein hinsawdd sy'n newid.

Fe weithion ni gyda Historic England i ddeall effaith yr argyfwng hinsawdd ar y lleoedd hyn. Hon yw'r ymchwil gyntaf o'r math. Bydd y canlyniadau'n helpu i lywio ein dull yn y dyfodol o gefnogi treftadaeth naturiol y DU drwy [Treftadaeth 2033](#).

Heb gefnogaeth a chynghor brys, bydd llawer o'r tirweddau gwerthfawr hyn yn dioddef ac yn newid y tu hwnt i adnabyddiaeth.

Dywedodd Drew Bennellick, Pennaeth Polisi Tir, Môr a Natur, Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Yr hyn a ddangosodd ein hymchwil

Clywsom gan fwy na 100 o gyfranogwyr drwy gyfweiliadau a'n harolwg ar-lein. Dywedon nhw wrthym fod yr argyfwng hinsawdd yn effeithio ar reolaeth o ddydd i ddydd ar draws y rhan fwyaf o safleoedd.

Mae hafau sychach a gaeafau gwlypach yn eu gorfodi i addasu.

Dywedodd Drew Bennellick, ein Pennaeth Polisi Tir, Môr a Natur: "Mae'n amlwg bod ein parciau, gerddi a mynwentydd hanesyddol yn wynebu heriau digynsail oherwydd newid hinsawdd, a heb gefnogaeth a chynghor brys, bydd llawer o'r tirweddau gwerthfawr hyn yn dioddef ac yn newid y tu hwnt i adnabyddiaeth."

Sut mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol

Mae **hafau mwy cynnes a sych** yn creu straen ar blanhigion a phriddoedd, gan achosi colledion coed a llwyni aeddfed mewn ardaloedd nad ydynt yn hanesyddol yn cael sychder. Mae dyfrio â llaw yn rhoi galw mawr ar amser staff a gall storio d'r fod yn broblem hefyd.

Mae **glaw mwy dwys** bellach yn achosi llifogydd mewn ardaloedd nad ydynt wedi cael llifogydd o'r blaen. Mae'n llethu systemau draenio hanesyddol a ddyluniwyd ar gyfer glaw mwy cyson. Mae priddoedd dirlawn yn atal gwaith rheolaidd, ac mae llwybrau, llethrau a glannau afonydd yn erydu.

Mae **patrymau stormydd sy'n newid** yn achosi colledion coed ar raddfa fawr, o ddwsinau mewn gerddi llai i filoedd ar ystadau mawr. Mae coed wedi'u dadwreiddio bellach yn fwy cyffredin oherwydd priddoedd dirlawn. Mae safleoedd yn cael eu gorfodi i gau er diogelwch y cyhoedd, sy'n effeithio ar incwm a chysylltiadau ag ymwelwyr.

Sut mae safleoedd treftadaeth naturiol yn ymateb

Mae parciau a gerddi hanesyddol yn addasu eu plannu i gynnwys rhywogaethau sy'n fwy gwydn yn erbyn yr hinsawdd, yn aml o ranbarthau cynhesach neu sychach. Maen nhw'n gwella effeithlonrwydd trwy gasglu d'r glaw ac aildddefnyddio tanciau hanesyddol i'w storio. Mae llawer o safleoedd yn defnyddio tomwellt a deunyddiau organig i gynnal lleithder ac iechyd y pridd ac yn plannu coetiroedd newydd i gynyddu cadw d'r.

Mae safleoedd hefyd yn uwchraddio llwybrau ac yn gosod draeniau newydd i ymdopi â glaw trwm, yn ogystal ag ailddylunio tirweddau i ymdopi â d'r llifogydd. Mae timau hefyd yn camu'n ôl o dasgau llafurddwys fel gosod gwelyau ar raddfa fawr ac yn ailddyrrannu'r amser hwnnw i adsefydlu ar ôl stormydd a monitro'r hinsawdd. Hefyd, maen nhw'n buddsoddi mewn hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar addasu i'r hinsawdd.



Mae Rosie Fyles, Pennaeth Gerddi, yn sefyll yng ngerddi llosgedig Chiswick House. Credyd: Chris Gorman, Big Ladder Photography.

Dywedodd Rosie Fyles, Pennaeth Gerddi, Chiswick House and Gardens: "Mae bygythiad newid hinsawdd i dirwedd 300 mlwydd oed Chiswick yno i bawb ei weld yn ystod sychder; mae'r gerddi wedi'u llosgi. Y gwir amdani yw bod ein gallu ni fel garddwyr i leihau'r effeithiau negyddol, yn enwedig ar ein 1800 o goed, yn eithaf cyfyngedig.

"Fy rôl i nawr yw cynllunio'n ddeallus a gwneud y penderfyniadau gwybodus cywir i baratoi ar gyfer y 300 mlynedd nesaf, gan gywain cymaint o gyngor ac adnoddau ag y gallaf i wneud hynny."

Pa gefnogaeth sydd ei hangen fwyaf

Gofynnodd mwy na hanner yr ymatebwyr i'n harolwg am wybodaeth fwy priodol a hygyrch am yr argyfwng hinsawdd, gan gynnwys arweiniad ar sut i gynnal asesiad risg newid hinsawdd ar gyfer parc a gardd.

Dywedodd bron pawb a gafodd eu cyfweld fod ariannu'n hanfodol i wneud gwahaniaeth ac mai diffyg adnoddau a chapasiti staff yw'r prif reswm dros beidio â gweithredu newidiadau.

Byddai'r rhai sy'n gofalu am barciau a gerddi hanesyddol hefyd yn elwa o wybodaeth fwy canolog, rhwydweithio â chymheiriaid a hyfforddiant parhaus.

Dywedodd Erika Diaz Petersen, Prif Ymgynghorydd Tirweddau Cenedlaethol, Historic England: "Mae'r ymchwil newydd hon yn amlygu'r heriau y mae perchnogion yn eu hwynebu wrth reoli safleoedd yn wyneb risgiau fel llifogydd, sychder, gwyntoedd cryfion a phlâu a chlefydau, a'r angen am gyngor a chefnogaeth wrth iddyn nhw weithio i sicrhau'r lleoedd gwerthfawr hyn ar gyfer y dyfodol."

Darllenwch yr adroddiad llawn

Archwiliwch [ganfyddiadau llawn ein hymchwil](#), gan gynnwys argymhellion ar ba ffyrdd eraill y gallai fod angen i'r sector addasu.

Sut rydyn ni'n cefnogi parciau a gerddi hanesyddol

Ers 1994 rydyn ni wedi dyfarnu dros £2.3 biliwn i 5,300 o brosiectau tir, môr a natur mewn trefi a dinasoedd ac ar draws cymunedau gwledig ac arfordirol ym mhob cwr o'r DU.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud mwy i helpu diogelu'r amgylchedd trwy eich prosiect treftadaeth, mynnwch gip ar ein [canllaw arfer da cynladwvdd amgylcheddol](#).



[Golydd mewn ...](#)

[Credit: Chris Gorman, Big Ladder Photography.](#)



[di a mynwentydd hanesyddol](#)

[Sheffield General Cemetery.](#)



[South Cliff Gardens, Scarborough. Photo: Tony Bartholomew](#)

[Scarborough's 200-year-old gardens returned to their former glory](#)